## PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion cyfarfod hybrid y Cyngor a gafodd ei gynnal ddydd Mercher 14 Gorffennaf 2023 am 5pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

Y Cynghorydd G Hughes (Cadeirydd)

Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd L Addiscott
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Davis
Y Cynghorydd V Dunn
Y Cynghorydd J Edwards
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd B Harris
Y Cynghorydd W Hughes
Y Cynghorydd G Jones
Y Cynghorydd W Jones
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd C Lisles
Y Cynghorydd N H Morgan
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd A Roberts
Y Cynghorydd J Smith
Y Cynghorydd L A Tomkinson
Y Cynghorydd J Turner
Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd R Williams
Y Cynghorydd B Stephens
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd J Cook
Y Cynghorydd E L Dunning
Y Cynghorydd L Ellis
Y Cynghorydd D Evans
Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd S Hickman
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd K Johnson
Y Cynghorydd G O Jones
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Maohoub
Y Cynghorydd A Morgan
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd D Parkin
Y Cynghorydd C Preedy
Y Cynghorydd S Rees
Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd S Trask
Y Cynghorydd G L Warren

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:**

Y Cynghorydd M Ashford
Y Cynghorydd P Binning
Y Cynghorydd S J Davies
Y Cynghorydd A Dennis
Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd J Barton
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd J Elliott
Y Cynghorydd A J Ellis
Y Cynghorydd A Fox

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Hopkins | Y Cynghorydd H Gronow |
| Y Cynghorydd C Middle | Y Cynghorydd W Owen |
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd R Lewis |
| Y Cynghorydd A O Rogers | Y Cynghorydd D Owen-Jones |
| Y Cynghorydd W Treeby | Y Cynghorydd G E Williams |
| Y Cynghorydd D Wood | Y Cynghorydd T Williams |
| Y Cynghorydd R Yeo | |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd
Mr R Waters, Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Rheng Flaen

## 12 Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P Evans, R Evans, K Morgan, M Powell, K Webb a D Williams.

## 13 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Eitem 9 ar yr agenda - **SEFYDLU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS AR GYFER CWM TAF MORGANNWG - TREFNIADAU TROSOLWG A CHRAFFU AR Y CYD**

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Bradwick – "Fi yw Cadeirydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D R Bevan – "Rydw i'n aelod o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings – "Rydw i'n aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol B Stephens – "Rydw i'n aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus"

## 14 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd hybrid o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2023 (am 4pm a 5pm) a 10 Mai 2023 yn rhai cywir.

## 15 Cyhoeddiadau

Cafodd y cyhoeddiadau canlynol eu gwneud:

- Talodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan OBE, y deyrnged ganlynol i'r diweddar Tyrone O'Sullivan OBE a fu farw ar 27 Mai, yn 77 mlwydd oed. Ganed Tyrone i deulu glofaol yn Abercwmboi, ac roedd yn ymwybodol iawn o beryglon y pyllau, gan iddo golli'i hen dad-cu yn y Maerdy, a'i dad yng nglofa'r Tŵr pan oedd Tyrone ddim ond yn 17 oed. Er gwaethaf hyn, cafodd Tyrone swydd trydanwr dan hyfforddiant yn y pwll glo, a chyn bo hir daeth yn ffigur blaenllaw yn y mudiad Undebau. Daeth yn enwog am beidio â cholli'r un bleidlais dros weithredu diwydiannol mewn 22 mlynedd pan oedd yn Ysgrifennydd Cangen tanddaearol mudiad NUM. Chwaraeodd ran flaenllaw yn streic 1984-85, gan drefnu protestiadau yng Nghymru, de Lloegr, Essex, a de Swydd Efrog. Ei gamp fwyaf adnabyddus oedd perswadio'i gydweithwyr yng nglofa'r Tŵr i ymrwymo £8,000 yr un o'u harian diswyddo er mwyn casglu blaendal gwerth £1 miliwn i gymryd y safle drosodd. Ychwanegodd yr Arweinydd fod llawer yn cofio gweld y 239 o lowyr yn gorymdeithio yn ôl i'r gwaith ym mis Ionawr 1995 – flwyddyn ar ôl i'r pwll glo gau - yn dilyn y pryniant llwyddiannus. Arhosodd y Tŵr ar agor am 13 mlynedd arall, a heddiw mae atyniad Zip World poblogaidd ar y safle. Soniodd yr Arweinydd am ei atgofion gyda Tyrone yn ystod taith i Ogledd Cymru ac, ar ran yr Awdurdod Lleol, dymunodd gydymdeimlo ag Elaine, gwraig Tyrone, a'r teulu.

- Ychwanegodd y Cynghorydd A O Rogers, y mae ei ward yn cynnwys safle Glofa'r Tŵr, deyrnged i'r diweddar Tyrone O'Sullivan OBE hefyd. Cyfeiriodd at y teyrngedau a'r sylwadau caredig niferus sydd wedi dod i law yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ychwanegodd y byddai llawer yn cytuno y byddai'n cael ei gofio am ei arweiniad a'i waith o ran brwydro i gadw glofa'r Tŵr ar agor a helpu'r glowyr i brynu'r pwll yn llwyddiannus. Siaradodd y Cynghorydd Rogers am weledigaeth Tyrone o ran rhoi cyfleoedd i bobl ifainc ar gyfer y dyfodol a'u helpu i adeiladu a datblygu'r cymunedau glofaol drwy brosiectau megis Zip World, sy'n cyflogi nifer o drigolion lleol.

- Roedd y Cynghorydd R Lewis yn dymuno llongyfarch Clwb Rygbi Abercynon ar dymor llwyddiannus o rygbi ar ôl i'r tîm yn gael ei goroni'n bencampwr Adran 2 Canolbarth y Dwyrain a sicrhau dyrchafiad. Mae'r holl dîm, ei staff a gwirfoddolwyr yn destun balchder i'r gymuned gyfan. Ar ran y Cynghorydd Dennis, dymunodd y Cynghorydd Lewis yn dda i'r tîm ar gyfer y tymor nesaf.

- Ar ran y Cynghorydd W Jones, llongyfarchodd y Cynghorydd S Emanuel Maggie Davies o Flaenrhondda a redodd marathon Llundain er cof am ei diweddar ŵr Paul. Mae hi wedi codi dros £4000 i elusen dementia Brain Bank.

- Fe wnaeth y Cynghorydd Ros Davis longyfarch Mr David Ferns, sy'n byw yn y Porth. Cwblhaodd Farathon Llundain ar 23 Ebrill, mewn 3 awr a 40 munud, gan godi mwy na £600 i Tommy's, elusen sy'n ariannu ymchwil i

gamesgoriad, genedigaeth farw a genedigaeth gynamserol. Roedd yn gyflawniad personol eithriadol i David ac yn newyddion gwych i'r elusen.

- Roedd y Cynghorydd K Johnson yn dymuno llongyfarch trigolyn ifanc o Lanilltud Faerdref, Coral Brush-Davies, sydd wedi'i gwahodd i fod yn aelod o Dîm Prydain Fawr i gystadlu fel amatur unigol yng Nghwpan y Byd Dawns Elitaidd 2023, Tsieina. Coral fydd y dawnsiwr unigol cyntaf o fewn ei grŵp oedran i dderbyn gwahoddiad i fod yn rhan o garfan Prydain Fawr, a hi fydd yr unig gystadleuydd o Gymru. Bydd hi'n cynrychioli cymuned Efail Isaf a Dance Crazy Studios yn Llanilltud Faerdref, lle cafodd ei doniau eu meithrin. Gofynnodd y Cynghorydd Johnson i'r maer anfon llythyr i longyfarch Coral ar ei chyflawniad a gofynnodd am ganiatâd y Llywydd i rannu manylion ei thudalen Just Giving â'r holl Aelodau yn dilyn y cyfarfod.

- Llongyfarchodd y Cynghorydd Sheryl Evans Clwb Rygbi Abercwmboi ar ei ddyrchafiad diweddar i Adran 1 o Gynghrair Canolbarth Dwyrain Undeb Rygbi Cymru. Dyma gamp haeddiannol i'r tîm cyfan, gan gynnwys chwaraewyr, hyfforddwyr a phawb sy'n ymwneud â'r Clwb. Dymunodd y Cynghorydd Evans bob lwc i'r Clwb ar gyfer y tymor nesaf.

- Roedd y Cynghorydd A S Fox yn dymuno talu teyrnged i drigolyn ifanc arbennig o Benrhiwceibr sy'n mynychu Ysgol Gynradd Penrhiwceibr. Ganed Oliver Wilson gyda pharlys yr ymennydd 11 mlynedd yn ôl ac mae'n ymgymryd â phob her gyda gwên ar ei wyneb. Cymerodd ran mewn treialon ar gyfer tîm parlys yr ymennydd Lloegr ac mae bellach wedi cael cynnig lle ar y tîm mawreddog hwn. Roedd y Cynghorydd Fox yn sicr y byddai pob Aelod yn hoffi ymuno ag ef i ddymuno pob llwyddiant i Oliver ar gyfer y dyfodol.

- Roedd y Cynghorwyr G O Jones ac E Dunning yn dymuno cyflwyno deiseb ar ran trigolion yn galw ar fesurau arafu traffig yn Heol Bronllwyn a'r strydoedd cyfagos yn y Gelli.

**16 Cwestiynau gan yr Aelodau**

1. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. E. Williams i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

"Cyn y gaeaf a'r paratoadau ar gyfer tywydd garw, a fydd cyfle i Aelodau ymgysylltu â swyddogion a dod i sesiynau briffio ynglŷn â'r paratoadau?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

Ymatebodd y Cynghorydd A. Morgan fod y Cyngor yn cynnal sesiwn briffio ar gyfer Aelodau Etholedig cyn cyfnod y gaeaf bob blwyddyn. Cynhaliwyd sesiwn y llynedd ym mis Tachwedd a bydd y sesiwn eleni yn cael ei chynnal yn gynharach, o bosibl ym mis Hydref. Dywedodd yr Arweinydd mai prif ffocws y

sesiynau yma yw cyflwyno Cynllun Cynnal a Chadw'r Cyngor ar gyfer y Gaeaf. Mae hwn yn amlinellu manylion o ran pa gamau y mae’r Cyngor yn eu cymryd i baratoi ar gyfer tywydd garw dros fisoedd y gaeaf, rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau a Swyddogion, sut i rannu gwybodaeth, y rhif cyswllt y tu allan i oriau, sut i gofnodi materion trwy'r ganolfan gyswllt a pha gymorth sydd ar gael i gymunedau, gwasanaethau'r Cyngor a staff.

Pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd sicrhau cymaint o ymgysylltu a chyfranogiad gan Aelodau â phosibl – eglurodd fod y sesiwn yn un gwerth chweil ac anogodd yr holl Aelodau i gymryd rhan. Daeth yr Arweinydd i'r casgliad y byddai dyddiad yn cael ei gadarnhau a'i ddosbarthu drwy'r Gwasanaethau Democrataidd maes o law.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Williams:**

“Ni allwn warantu na fydd Pentre’n gorlifo eto ond mae’r gwaith a wnaed i’r cwlfer a’r systemau draenio yn rhoi tawelwch meddwl y mae mawr ei angen i drigolion Pentre. Oes modd i'r Arweinydd roi rhagor o fanylion am yr opsiwn gwaith a ffafrir gan y Cyngor?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd fod Pentre yn amlwg yn un o’r cymunedau a gafodd ei tharo galetaf yn ystod Storm Dennis, ac digwyddiadau tywydd garw dilynol, ac mae dros £1 miliwn wedi’i wario ar ddiogelu'r ardal hyd yma. Cadarnhaodd mai’r opsiwn a ffafrir yw agor chwlfer newydd drwy’r strydoedd. Er y byddai hynny’n tarfu ar drigolion (mater a gafodd ei gyfleu yn yr wybodaeth ymgynghori a ddosbarthwyd), byddai'r Cyngor hefyd yn lleddfu eu pryderon trwy sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein gyda Swyddogion.

Dywedodd yr Arweinydd fod y cynllun yn fuddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd mewn seilwaith lleol, a gyflwynir fesul cam. Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid sylweddol ar gyfer y cynllun eleni. Bydd y cynllun yn angenrheidiol yn wyneb newid hinsawdd ac yn diwallu'r angen i ddiogelu cartrefi a thrigolion. Dywedodd yr Arweinydd fod gwaith paratoi yn rhan allweddol o'r cynllun, a dyna pam fod hyfforddiant yn fater hanfodol i Aelodau.

2. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Cook BEM i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

“Pa gymorth sydd ar gael i fanciau bwyd a chynlluniau lleol tebyg yn ystod y flwyddyn i ddod?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi cynnal cyfarfod allweddol yn ddiweddar i drafod pa gymorth pellach mae modd ei ddarparu i fanciau bwyd lleol a chlybiau bwyd/pantris, lle mae llawer o waith rhagorol yn cael ei wneud ledled y fwrdeistref sirol i gefnogi grwpiau o bobl hŷn a theuluoedd. Mae amrywiaeth o grantiau ar gael, er enghraifft mae modd i grwpiau cymunedol wneud cais am

grantiau bach o hyd at £500 (hyd at dair gwaith y flwyddyn) er mwyn defnyddio'r arian yn lleol.

Dywedodd yr Arweinydd fod disgwyl i gyfanswm gwerth ariannol y cymorth fod yn fwy na £160,000 a bydd y carfanau perthnasol yn gweithio i ryddhau'r cronfeydd hyn, megis y Gronfa Fwyd sydd werth £500, y mae modd i unrhyw sefydliad cymunedol wneud cais amdani - yn ogystal â chronfeydd cymunedol eraill sydd werth hyd at £1,000.

Roedd yr Arweinydd yn dymuno canmol yr holl grwpiau yn y gymuned sy'n gweithio'n galed i gefnogi teuluoedd a thrigolion trwy gyfnodau anodd. Pwysleisiodd fod y Cyngor unwaith eto'n edrych i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gyda dyraniadau pellach yn cael eu gwneud yn y dyfodol.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

3. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Emanuel i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

"A oes modd i'r Arweinydd wneud datganiad ar fuddsoddiad cyfalaf yn Rhondda Cynon Taf os gwelwch yn dda?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd fod lefel y gwariant Cyfalaf yn fwy nag erioed, ac ar gyfer 2022/23, roedd yn dod i gyfanswm o £135 miliwn. Fel cymhariaeth, yn 2015/16, roedd cyfanswm gwariant cyfalaf y Cyngor yn cyfateb i £66.9 miliwn. Mae'r rhaglen gyfalaf 3 blynedd newydd arfaethedig ar gyfer 2023/24 i 2025/26 yn cynrychioli cyfanswm buddsoddiad o £187 miliwn.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn derbyn symiau mawr o arian Cyfalaf drwy gydol y flwyddyn, yn ddiweddar wedi derbyn dros £5 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer materion teithio llesol (gyda manylion pellach yn cael eu cyhoeddi'n fuan). Mae cais pellach am fwy na £10 miliwn wedi'i gyflwyno ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r tomennydd, yn ogystal â chais am grant gwerth £5 miliwn ar gyfer prosiectau lliniaru llifogydd. Ychwanegodd fod cyllid sylweddol ar gael ar gyfer ysgolion hefyd, naill ai ar gyfer cynlluniau wedi'u hariannu'n llawn neu ar sail model buddsoddi a rennir.

Eglurodd yr Arweinydd fod y rhaglen hefyd yn cynnwys buddsoddiadau penodol ychwanegol mewn meysydd sy'n cynnwys Priffyrdd, Strwythurau, Parciau, Mannau Chwarae ac Ardaloedd Chwaraeon Amlddefnydd, yn ogystal â meysydd buddsoddi eraill sy'n cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Ychwanegodd fod y rhaglenni cyfalaf dros yr 8 mlynedd diwethaf wedi bod dros £100 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd – felly mae hyn yn dangos y lefel di-baid o fuddsoddi cyfalaf sydd wedi bod yn mynd rhagddo yn ein cymunedau, gan wella isadeiledd lleol, hybu gwariant lleol i'r economi a buddsoddi mewn costau cynnal a chadw yn y dyfodol lle mae'r gyllideb refeniw dan bwysau. Daeth yr Arweinydd i'r

casgliad ei fod yn falch o'r ffordd y mae'r buddsoddiad cyfalaf yn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r gwasanaethau.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Emanuel:**

"Mae Parc Blaenrhondda wedi elwa ar fuddsoddiad yr oedd mawr ei angen. Oes modd i'r Arweinydd amlinellu pa fuddsoddiadau pellach fydd yn mynd rhagddynt yn y Parc lleol poblogaidd yma sy'n cael ei ddefnyddio'n aml ac sy'n boblogaidd iawn?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd fod pob parc ledled y fwrdeistref sirol wedi cael ei asesu, ac eleni mae'r Cyngor yn bwriadu gwario £1 miliwn ar ei barciau. Eglurodd fod dealltwriaeth wirioneddol o ran beth yn union sydd ei angen, ac mae'r arian yn cael ei rannu rhwng y gwahanol gategorïau, megis isadeiledd (fel llwybrau troed, draeniau, ffensys), y pafiliynau (ystafelloedd newid). Ychwanegodd yr Arweinydd fod cynnal a chadw'r pafiliynau yn gostus felly dim ond nifer benodol sy'n cael eu hadnewyddu bob blwyddyn. Mae rhaglen arall yn ymwneud â draenio ar leiniau a bellach mae gwaith yn mynd rhagddo ar naw llain ledled y fwrdeistref sirol bob blwyddyn.

Daeth yr Arweinydd i'r casgliad y byddai'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi yn y maes yma.

4. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Hughes i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber:**

"A oes modd i'r Dirprwy Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brentisiaethau a rhaglen raddedigion y Cyngor?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:**

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod y broses recriwtio Prentisiaethau a Graddedigion ar gyfer dechrau ym mis Medi 2023 newydd ddod i ben. Cadarnhaodd fod y Cyngor wedi derbyn ychydig dros 700 o geisiadau am 9 swydd Raddedig a 49 o gyfleoedd Prentisiaeth, sy'n dangos bod y Cyngor yn parhau i fod yn gyflogwr deniadol. Mae trigolion yn amlwg yn ein hystyried yn sefydliad da ar gyfer datblygu eu gyrfaoedd.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd y bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal dros y ddau fis nesaf, gyda disgwyl i'r staff newydd ddechrau ar 4 Medi 2023. Ychwanegodd mai ymrwymiad y Weinyddiaeth yma yw darparu 150 o swyddi pellach i brentisiaid a graddedigion yn ystod tymor y Cyngor yma. Mae'r nifer a dderbynnir eleni yn adeiladu ar y gwaith rhagorol a wnaed eisoes dros y blynyddoedd i ddarparu swyddi o ansawdd da, sy'n talu'n dda i'n trigolion.

Eglurodd y Dirprwy Arweinydd fod ymrwymiad yn nhymor diwethaf y Cyngor i greu 150 o swyddi i brentisiaid a graddedigion. Rhwng 2018 a 2022, crëwyd cyfanswm o 256 o swyddi o fewn yr Awdurdod, sy'n golygu bod y Cyngor wedi

rhagori ar ei ymrwymiad. At hynny, ers 2012 pan ddechreuodd y cynllun, mae cyfanswm o 324 o brentisiaethau a 125 o swyddi i raddedigion wedi’u creu.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod Rhaglen Brentisiaethau’r Cyngor yn cael ei pharchu’n eang ac wedi’i chydnabod am y cyfleoedd rhagorol y mae’n eu darparu. Cafodd y Cyngor ei goroni’n Facro Gyflogwr y Flwyddyn yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru yn 2018 a 2021. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cefnogi Trivallis gyda'i gynllun prentisiaeth ac wedi cefnogi Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr yn y gorffennol.

I gloi, dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod Swyddogion y Cyngor wedi mynychu nifer o gyfarfodydd a chynadleddau i siarad am y rhaglen brentisiaeth ac roedd yn falch o gadarnhau bod cynllun Prentisiaeth RhCT yn cael ei adnabod fel rhaglen flaenllaw yng Nghymru.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**5. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S.Powderhill i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

“A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i wella Parc Coffa Ynysangharad?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

Eglurodd y Cynghorydd Crimmings fod gwaith ar y rownd ddiweddaraf o welliannau mawr i Barc Coffa Ynysangharad wedi mynd rhagddo’n dda, ac y bydd yn cael ei gwblhau’n fuan. Mae’r gwaith yn cael ei gefnogi gan becyn buddsoddi sylweddol o £1.9 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, cronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, a chyfraniadau'r Cyngor. Ychwanegodd fod y gwaith o adeiladu canolfan newydd Calon Taf ar fin cael ei gwblhau, gyda dim ond ambell ddarn o waith gorffenedig i'w wneud. Y nod yw agor y Ganolfan yn ei chyfanrwydd ym mis Gorffennaf.

Dywedodd y Cynghorydd Crimmings y bydd y Ganolfan yn darparu gofod dosbarth pwrpasol, gardd awyr agored gyda gwelyau blodau uchel, a thŷ gwydr. Y bwriad yw y bydd yn ganolbwynt cymunedol a fydd yn annog trigolion i ddysgu ac ymgysylltu gyda'i gilydd. Ychwanegodd fod yr hen floc toiledau segur yn cael ei adfer a'i drawsnewid yn gyfleuster lles i staff gwasanaeth y Parciau, a bod y gwaith bron wedi'i gwblhau, gyda'r Contractwr ar hyn o bryd yn rendro tu allan yr adeilad. Mae staff y Parciau wedi symud eu holl offer i'r cyfleuster newydd.

Dywedodd y Cynghorydd Crimmings fod y Safle Seindorf a'r ardal gyfagos wedi'u hadnewyddu'n llawn, a bod gwaith plannu yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'r dyluniad llinell amser ar gyfer llawr y Safle Seindorf bron wedi'i orffen, a bydd y nodwedd hon yn cael ei chwblhau dros yr ychydig wythnosau nesaf. Ychwanegodd fod gwaith yn parhau ar adfer ardal yr Ardd Isel - mae'r waliau perimedr a'r gwaith atgyweirio llwybrau troed bron wedi'u cwblhau, ac mae'r meinciau newydd hefyd wedi cyrraedd. Disgwylir i'r gwaith plannu

ddechrau'n fuan.

Dywedodd y Cynghorydd Crimmings wrth yr Aelodau fod y Cydlynydd Prosiect yn hwyluso cyflwyno cyrsiau a gweithgareddau yn y parc a hefyd yn paratoi ar gyfer cynllunio a gweithredu prosiect canmlwyddiant y Parc. Mae disgwyl i hwn gael ei gynnal ddydd Sul, 6 Awst, ar y cyd ag achlysur Cegaid o Fwyd Cymru. Bydd y dathliad canmlwyddiant yn cynnwys cerddoriaeth fyw o'r safle seindorf, teithiau cerdded hanesyddol, a gweithgareddau cyfeillgar i'r teulu oll. Mae'n argoeli i fod yn achlysur cyffrous i'r gymuned i nodi canmlwyddiant y Parc.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**6. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Williams i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

"Yng ngoleuni'r diffyg cyllid sy'n wynebu cynghorau ledled Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf, a all yr Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gydag Arweinwyr Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd fod trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru ac Arweinwyr Cynghorau yn cael eu cynnal yn wythnosol, lle mae'r Arweinwyr yn parhau i alw am fuddsoddiad pellach a mwy o ddyraniadau gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegodd fod y rhagolygon ariannu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus dros y tair blynedd nesaf yn ymddangos yn anodd, ac yn seiliedig ar yr adolygiad cynhwysfawr o wariant tair blynedd a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU, mae'r awdurdod lleol ar hyn o bryd yn edrych i gael codiad o 3.1%. Byddai hyn yn gadael y Cyngor yn brin o arian ar gyfer cynnal gwasanaethau y flwyddyn nesaf.

Dywedodd yr Arweinydd fod y darlun yn debyg ledled Cymru gyda llawer o awdurdodau lleol yn adrodd am sefyllfa waeth nag yn RhCT. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i fantoli ei gyllideb eleni drwy flaenoriaethu'n briodol ar gyfer Ysgolion a Gofal Cymdeithasol a gwneud penderfyniadau anodd. Ychwanegodd fod pwysau ar wasanaethau o ganlyniad i'r cynnydd pellach posib mewn cyfraddau llog a fydd yn effeithio ar fenthyca a marchnadoedd. Dywedodd yr Arweinydd fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r gweinidog cyllid i drafod y rhagolygon.

Siaradodd yr Arweinydd am yr amwysedd ynghylch sut y bydd Llywodraeth y DU yn talu am ddyfarniad cyflog y GIG yn Lloegr a sut y bydd y diffyg eglurder yn effeithio ar y swm canlyniadol i Gymru. Ychwanegodd nad yw hyn yn ffordd o redeg gwasanaethau cyhoeddus a'i fod yn gobeithio y bydd y blynyddoedd nesaf yn gwella, ond sicrhaodd y Cyngor y bydd yn parhau i lobïo Llywodraeth San Steffan. Cyfeiriodd at werth pob awdurdod lleol a dywedodd ei fod yn gobeithio am newid gan na all gwasanaethau cyhoeddus weithredu'n effeithiol heb arian digonol.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol oherwydd bod yr amser a neilltuwyd wedi dod i ben.**

**17 Gwrthsefyll Llifogydd**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen yr adroddiad (a ategwyd gan gyflwyniad Power Point) gyda'r diben o roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu'r Cyngor i liniaru'r perygl o lifogydd ers Storm Dennis, ynghyd â throsolwg o'r gwaith a wnaed i adnewyddu ac uwchraddio'r isadeiledd cyhoeddus yr effeithiwyd arno gan lifogydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr adroddiad yn croesgyfeirio adroddiadau ac ymrwymiadau blaenorol yn dilyn y storm ac yn nodi rhaglen waith, sydd wedi'i chynnwys yn yr atodiadau i'r adroddiad, yn dilyn y stormydd ym mis Chwefror 2020 a adawodd dros 1,500 eiddo dan ddŵr.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor wedi ymchwilio i'r llifogydd ac wedi llunio cyfanswm o bedwar ar bymtheg o Adroddiadau Adran 19. Cyfeiriodd at y gwaith sydd wedi'i wneud mewn ymateb i'r dinistr a achoswyd gan Storm Dennis yn 2020 a'r meysydd gwariant cyfalaf gyda grantiau ac ymrwymiadau gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â bron i £3 miliwn o gyllid y Cyngor ei hun.

Eglurodd y Cyfarwyddwr fod y rhaglen gyfalaf pedair blynedd, a fydd yn dod i ben yn y flwyddyn ariannol hon, yn cynnwys cyfanswm o tua £84 miliwn, sy'n cynnwys £42 miliwn ar gyfer gwaith uwchraddio ac atgyweirio uniongyrchol, £20 miliwn ar gyfer gwaith diogelwch tomennydd glo, £14 miliwn yn ymwneud â rheoli perygl llifogydd a £4.75 miliwn ar gyfer priffyrdd a heolydd.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at Atodiad A sy'n rhoi trosolwg o'r camau gweithredu a adroddwyd i'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2020, yn benodol y rheiny sy'n ymwneud â Gwasanaethau Rheng Flaen, megis cynyddu ei gapasiti mewnol ar lefel weithredol a rheoli a chynnal y rhwydwaith o asedau draenio, gan ddatblygu, codi ymwybyddiaeth o ran llifogydd, a chamau gorfodi yn ogystal â datblygu strategaeth perygl llifogydd trwy gyfres o ymgynghoriadau, a fydd yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor a'r Cabinet.

Parhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen â'i ddiweddariad ar yr isadeiledd a pheryglon llifogydd drwy gyfres o ddelweddau ar nifer o sleidiau Power Point o dan y penawdau canlynol, a oedd yn dangos faint o gynlluniau sydd ar y gweill ar draws y fwrdeistref sirol:

- Digwyddiadau Storm Chwefror 2020
- Safleoedd derbyn
- Cam 3A Draenio a Chlirio
- FAS - Lôn y Parc – Cyn-adeiladu/Ar ôl adeiladu
- FAS Teras Bronallt
- Treorci Rhan 1a – Heol Tyle Du
- FAS Teras y Waun
- Heol Cefnpennar – Leinin Cwlfer Mewnol
- Leinin a Chwlfer Newydd - Pentre
- Cilfach Heol Pentre
- Uwchraddiad Cwlfer Teras Tynycoed
- A4059 – Trawsgludiad Newtown
- Cwlfer newydd ar Ffordd y Rhigos
- Nant y Frwd – Stryd Allen, Aberpennar, Atgyweirio ac Uwchraddio Argyfwng
- Arllwysfa Teras Granville
- Basn malurion Teras Granville
- Teras Campbell - Cilfach
- Cwm-bach – Cilfach Heol y Gamlas
- Bryn Ifor - cilfach cwlfer

- Stryd Kingcraft - Cilfach
- Rhes Painter – Gwelliannau Cilfach
- Cwlfer y Dramffordd
- Gorsaf Bwmpio Glenboi
- Gwaith Strwythurol – Pont Castle Inn
- Trin Ymyl yr Afon - Castle Inn
- Heol Berw – (Pont Wen) Pontypridd
- Cam 2 Mur Afon Blaen-cwm
- Pont Droed Parc Ynysangharad
- Trwsio Ymyl Allfa Cwlfer Tyn-y-bryn
- Llwybr Cymunedol Ynys-hir
- Wal Afon Heol Pontypridd – Porth
- Wal Afon Stryd y Groes – Ynys-hir
- Pont Droed Maes-y-Ffynnon
- Arglawdd Heol Llwyncelyn
- Trwsio Ymyl yr Afon ger Pont Cwm Clydach
- Pont Nant Clydach – Ymyl Ynysybwl
- Stryd Siôn, Pontypridd
- Pont Tramffordd Pen-y-darren, Aberdâr
- Pont Parc Gelligaled, Ystrad
- Tirlithriad Mynydd Maerdy

Yn dilyn y cymhorthion gweledol, pwysleisiodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen bwysigrwydd parhau â momentwm y gyfres o waith ar draws RhCT, gan mai'r awdurdod lleol sy'n cynrychioli'r risg uchaf o lifogydd dŵr wyneb gyda'i dopograffeg a'i ddaearyddiaeth unigryw.

Yn dilyn trafodaeth fanwl ar raddfa’r gwaith sydd wedi’i wneud ac sy’n parhau i gael ei wneud ledled y fwrdeistref sirol, canmolodd yr Arweinydd Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen a’r carfanau perthnasol (yn enwedig carfan y Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Phrosiectau Strategol) sydd wedi bod yn ymwneud yn helaeth â chyflwyno rhaglenni i fynd i’r afael ag effeithiau ffisegol Storm Dennis ar isadeiledd cyhoeddus a lliniaru perygl llifogydd.

Yn dilyn y drafodaeth, roedd yr Arweinydd, Arweinwyr/Dirprwyon y Grwpiau a’r Llywydd yn dymuno cofnodi eu diolch i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen, Mr Roger Waters, a fyddai’n ymddeol yn fuan. Talwyd teyrnged i’w ymrwymiad, ei ymroddiad a’i waith caled yn ystod ei yrfa hir yn RhCT a dymunodd pob un ohonynt ymddeoliad hir a hapus iddo.

Dywedodd y Llywydd y gallai unrhyw gwestiynau sydd heb eu hateb gael eu cyfeirio at Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen drwy fewnflwch Uned Busnes y Cyngor.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad a'r cyflwyniad.

## 18 Rhaglen Waith y Cyngor 2023/24

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Raglen Waith ddrafft ar y rhestr arfaethedig o faterion sydd angen eu hystyried gan y Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024. Ychwanegodd fod dyddiadau ychwanegol ar ben yr hyn a gyhoeddwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol bellach wedi eu hychwanegu at y rhaglen waith.

Yn ystod y cyfnod a amlinellwyd, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y gallai'r rhaglen waith newid i adlewyrchu gofynion adrodd ychwanegol neu unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu fusnes arall a allai ddeillio o ystyriaethau pwyllgorau, megis argymhellion Craffu neu'r Pwyllgor Penodiadau. Ychwanegodd y caiff unrhyw newidiadau i fusnes yn cael ei gytuno gan y Swyddog Priodol gyda chytundeb terfynol gan y Llywydd. Lle bo modd, bydd Arweinwyr Grwpiau hefyd yn cael gwybod am unrhyw newidiadau yn ystod Blwyddyn y Cyngor.

I gloi, ac ar ôl trafod yr adroddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r eitemau yn yr adran 'Amrywiol' ar raglen waith y Cyngor yn cael eu dyrannu yn ystod y flwyddyn (yn amodol ar gytundeb). Bydd yr Aelodau cael eu hysbysu am hyn gan ddiweddariadau rheolaidd ym mhob cyfarfod o'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo’r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024 ac unrhyw ddiweddariadau priodol pellach gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.

**19 MECANWAITH RHOI GWYBOD AM RYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cyngor ystyried y cynigion ffurfiol ar gyfer cofnodi ac adrodd ar ganlyniad ac effaith mabwysiadu a/neu gyfeirio Rhybudd o Gynnig, yn dilyn pleidlais gan y Cyngor.

Yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2023, cefnogodd yr Aelodau'r cynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr D Grehan ac A Rogers mewn perthynas ag ymestyn y mecanwaith adrodd presennol. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at y trefniadau presennol sydd ar waith i gofnodi canlyniadau cynigion a fabwysiadwyd gan y Cyngor a lle bo'n briodol, y rheini a gyfeiriwyd at bwyllgor arall. Yn achos atgyfeiriad i bwyllgor Craffu, mae'r canlyniad ar hyn o bryd yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Cyngor mewn adroddiad sylweddol i hysbysu'r Aelodau o ganlyniad y cynnig gwreiddiol.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y cynigion ar gyfer y materion hynny sydd angen gohebiaeth allanol, a chynigir eu bod yn dilyn yr un trefniadau â'r materion mewnol hynny, a byddai'r canlyniadau'n cael eu cofnodi a'u cyhoeddi ar dudalennau gwe'r Cyngor. Ychwanegodd fod y mater hwn wedi'i drafod yn ddiweddar gan y Pwyllgor Cyfansoddiad a phenderfynodd yr Aelodau gytuno ar y cynigion.

Ar ôl trafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** i nodi'r gefnogaeth a darperir gan Bwyllgor Cyfansoddiad y Cyngor o ran y trefniadau adolygu.

**20 Sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cwm Taf Morgannwg-Trefniadau Trosolwg A Chraffu ar y Cyd**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r trefniadau newydd ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, yn dilyn y newid i un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer Cwm Taf Morgannwg sydd bellach yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ogystal â Chynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod am y trefniadau cyfredol ar gyfer y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu rhwng Cynghorau RhCT a Merthyr Tudful, sy'n craffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i bartneriaid, yn unol â'r gofyniad statudol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015 a chanllawiau statudol cysylltiedig. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, yn dilyn nifer o drafodaethau rhwng y tair unedol awdurdodau, fod y cylch gorchwyl arfaethedig a chyfansoddiad y pwyllgor wedi'u cytuno a'u hystyried, ac wedi'u nodi yn yr adroddiad. Bwriad hyn yw adeiladu ar y trefniadau cyfredol o ran craffu ar y cyd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu newydd yn cynnwys pum Aelod o bob Awdurdod Lleol yn ogystal â'r aelodau cyfetholedig lle bo'n briodol. Bydd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr sy'n ddinasyddion, cynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru, y Bwrdd Iechyd a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Ychwanegodd y gofynnir hefyd i awdurdodau lleol enwebu cynrychiolydd dirprwyol, a fydd yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cynghorau. Yn unol â'r trefniadau blaenorol ar y cyd, bydd y Cadeirydd yn cael ei benodi gan y Pwyllgor gydag Is-Gadeirydd yn cael ei enwebu o Awdurdod Lleol arall.

Soniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth mai'r cynnig yw y bydd Rhondda Cynon Taf yn parhau i roi cymorth i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, gyda chyfle i'r awdurdodau lleol eraill i adolygu'r trefniant hwn ar ddiwedd y cyfnod o ddwy flynedd.

I gloi, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y cynigion wedi'u hystyried gan y BGC, ac roedd y Bwrdd yn fodlon i'r Cynghorau fabwysiadu hyn. Bydd Cynghorau Merthyr a Phen-y-bont ar Ogwr hefyd yn ystyried adroddiadau tebyg.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Cytuno i greu Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnwys Aelodau etholedig o Gynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr i graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg**;**

2. Cymeradwyo Cylch Gorchwyl Drafft Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, fel y nodir yn Atodiad 1, a gwneud unrhyw sylwadau pellach y teimlir eu bod yn briodol;

3. Pennu aelodau Statudol y BGC (anweithredol) a 'chyfranogwyr wedi'u gwahodd' i wasanaethu fel aelodau cyfetholedig ar Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu BGC Cwm Taf fel yr amlygwyd yn adran 6 o'r adroddiad;

4. Cytuno y dylid bwrw ymlaen â threfniadau penodi'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, a amlygwyd yn adran 7 o'r adroddiad, gan ddechrau o ddechrau Blwyddyn y Cyngor 2023/24;

5. Cytuno bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn darparu'r trefniadau cymorth a gweinyddol, a amlygwyd yn adran 8 o'r adroddiad, am gyfnod o 2 flynedd, gan ddechrau o ddechrau Blwyddyn y Cyngor

2023/24 cyn adolygu'r trefniadau ar ddiwedd y cyfnod yma.

6. Cytuno y dylid darparu hyfforddiant i bob Aelod o Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu BGC Cwm Taf Morgannwg i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl newydd; a

7. Enwebu'r 5 Aelod Etholedig a ganlyn, 4 (Llafur), 1 (Plaid Cymru) ac 1 dirprwy aelod ychwanegol (Llafur), yn unol â threfniadau cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor:

   Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol D R Bevan, B Stephens, J Bonetto, M Ashford, a K Morgan (a'r Cynghorydd Sheryl Evans fel dirprwy aelod).

**21 Adroddiad Blynyddol 2022/2023**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad a oedd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/23, gyda chyfle i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gyfrannu at fusnes y pwyllgor. Ychwanegodd fod meysydd allweddol i'w hystyried yn yr adroddiad yn cynnwys datblygiad Aelodau, Gwasanaethau Aelodau a chefnogaeth i swyddogaethau democrataidd anweithredol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn.

Yn ei rôl fel Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd roedd yn dymuno cofnodi ei ddiolch i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd am y gefnogaeth barhaus yr oedd ef a'r garfan Gwasanaethau Democrataidd wedi'i dderbyn.

Derbyniodd yr aelodau anerchiad gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Jones a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, i gyflwyno'r adroddiad blynyddol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/2023.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/23.

**22 Rhybudd o Gynnig**

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Trask a K Johnson:

Mae unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn cael effaith fawr ar iechyd meddwl pobl o bob oed, dyma broblem sy'n dod i'r amlwg yn fwy aml ers pandemig coronafeirws. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cronfa tair blynedd gwerth £500,000 bob blwyddyn er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem yma ym mhob rhan o Gymru. Hyd yn hyn, dim ond £22,727 sydd wedi cael ei ddyrannu i ardal Rhondda Cynon Taf yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, mae hyn yn cyfateb i 9c fesul person yn RhCT. Mae CBSRhCT wedi dyrannu'r swm bach yma i grwpiau lleol yn rhan o'i Gronfa Rhwydweithiau Cymdogaeth. Rydyn ni'n canmol gwaith y grwpiau cymunedol bach yma ond rydyn ni o'r farn nad yw'r lefel cyllid presennol gan Lywodraeth Cymru'n ddigonol er mwyn cael effaith eang ar drigolion.

Bydd y pecyn cyllid 3 blynedd gwreiddiol yn dod i ben yn dilyn blwyddyn ariannol 2023/2024.

Felly, rydyn ni'n cynnig bod:

- Y Cyngor yma'n nodi bod unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn cael effaith niweidiol ar iechyd meddwl nifer o drigolion RhCT, a dydy cyllid Llywodraeth Cymru ddim yn ddigon i allu gwneud gwahaniaeth.

- Y Cyngor yma'n galw ar yr Arweinydd i ysgrifennu at Eluned Morgan AS yn gofyn bod lefel y cyllid yn cynyddu eleni fel bod modd gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau'r trigolion hynny yn RhCT a fydd yn elwa o'r cyllid.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.35 pm**

**Y Cynghorydd G Hughes**
**Cadeirydd.**